




Cylchlythyr Cenedlaethau'r Dyfodol Mai 2023



1 - Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Rhagair

*Rydym yn galw ar holl sefydliadau'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, swyddogion etholedig, ymgyrchwyr a threfnwyr cymunedol yng Nghymru – **beth ddylai fod yn flaenoriaethau i Gomisinydd Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol dros y saith mlynedd nesaf a thu hwnt?***

Rydym yn archwilio ble a sut y gallwn gael yr effaith fwyaf – gan weithio o fewn ein pwerau a'n dyletswyddau – yn y cyfnod newydd hwn o'n gwaith. Mae'r gwaith hwn, Ein Ffocws ar y Dyfodol, yn cynnwys casglu data a gwybodaeth oddi wrth:

- Adroddiadau cyhoeddedig
- Dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol
- Trafodaethau gyda rhanddeiliaid
- Arolwg ar-lein

Gallwch weld yr arolwg yma – [Ffocws Ein Dyfodol](#).

Bydd yr arolwg yn **fyw tan 3 Gorffennaf 2023** ac mae wedi'i deilwra i fod yn benodol i chi a pha bynnag rôl sydd gennych wrth siapio dyfodol Cymru.

you represent based? *

☐ South-East Wales

☒ South-West Wales

☐ Mid-Wales

☐ North Wales

2. There are two sections to this survey - one is intended for those in the public, private and voluntarily sectors, elected officials, campaigners or community organisers. Do you identify as a part of the aforementioned groups/ sectors? *

☐ Yes, I belong to one of these sectors or groups

☐ No - I am a member of the Public (you will be routed to a separate part of the survey)

Next Page

Dewiswch ranbarth yng Nghymru rydych chi neu'ch sefydliad yn dod ohono ac os ydych yn perthyn i unrhyw un o'r sectorau y sonnir amdanynt yn y cwestiwn neu os ydych yn cynrychioli eich hun.

Select the region of Wales you or your organisation is from and if you belong to any of the sectors mentioned in the question or if you're representing yourself.

<https://sway.office.com/qTJMIm83Zf4FU5Us#content=bDFAxUPASGDICX>

Felly, p'un a ydych yn gweithio mewn corff cyhoeddus, yn fusnes sydd â diddordeb yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, neu'n unigolyn sy'n ymgychu dros ddyfodol gwell, rydym am glywed gennych.

Gallwch ei chwblhau ar ran eich sefydliad, fel unigolyn, neu'r ddau – bydd y cwestiynau'n eich cyfeirio at y rhan briodol o'r arolwg.

Mae'r cwestiynau yn yr arolwg yn amrywio o ba rai o'n gweithgareddau sydd wedi cael yr effaith fwyaf a pha feysydd gwaith y dylem barhau/stopio; **yr hyn** y credwch yw'r materion a'r heriau mwyaf y dylem fynd i'r afael â hwy dros y saith mlynedd nesaf a **sut** y dylem wneud hynny.

Rydym hefyd yn gofyn cwestiynau ynghylch sut mae eich sefydliad yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn a beth allech chi wneud mwy/llai ohono.

Os hoffech gyflwyno ymateb cyfunol gan eich sefydliad neu grŵp, gallwch hefyd gael mynediad at fersiynau dogfen Word o'r arolwg [ar ein gwefan](#). Ond, peidiwch ag anfon eich atebion atom trwy unrhyw ddogfennau Word - bydd angen i chi eu trosglwyddo i'r arolwg ar-lein.

Dyma rai o'r ffyrdd yr ydym yn cynnwys pobl o bob rhan o Gymru.



**Bod cynaliadwyedd cryf a'u bod yn
falch iawn o Gymru.**

**That there's strong sustainability
and that they're really proud of
Wales.**

<https://sway.office.com/qTJMIm83Zf4FU5Us#content=rRRy5hVwJP7h6G>

Ers Mawrth 1af, sef dechrau tymor Derek Walker fel Comisiynydd, mae ein tîm wedi bod yn rhan o nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau sydd wedi cyfrannu at Ffocws Ein Dyfodol. Dim ond ychydig o'r rhain sy'n cynnwys:

- Ledled Cymru - Cyfarfod ag arweinwyr cyrff cyhoeddus a staff rheng flaen i drafod eu dyletswyddau o dan y Ddeddf a sut y gallwn eu cefnogi a'u cynghori orau wrth symud ymlaen.
- Aberystwyth - Prif siaradwr yn nigwyddiad **WISERD Cymru** a **Chanolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru** yn Aberystwyth i drafod sut mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer cymunedau cydlynol.
- Llanelwy - Gweithio gyda Nina Ruddle ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam i ddod ag arweinwyr a ysgogwyr newid o bob rhan o Ogledd Cymru at ei gilydd ar gyfer meddwl a dysgu cydweithredol
- Ar-lein - Cynnal sgwrs gyda'r Gynghair Economi Llesiant (WEALL) i drafod Ffocws Ein Dyfodol a'r hyn y mae angen i wasanaethau cyhoeddus ei wneud i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol
- Cydweithio ag Archwilio Cymru a'u digwyddiad gyda Chelfyddydau Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a'r Urdd i drafod nod llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'



Future Gen Cymru
@futuregencymru

...

Diolch @CWPSAber am ein croesawu heddiw i gyflwyno sut gall Deddf a Ffyrdd o Weithio DLICD darparu fframwaith i osgoi rhaniadau rhwng cenedlaethau a pholareiddio cymunedau. #FutureFfocws

Dweud eich dweud drwy ein harolwg i helpu Llunio Ffocws Ein Dyfodol:
bit.ly/ffocwseindyfod...

[Translate Tweet](#)



CWPSAber @CWPSAber · May 24

🌍🇬🇧 Our keynote speaker, @derekwalker_, Future Generations Commissioner for Wales @futuregencymru, shared how Wales is well-placed to resist division from an increasingly polarised world

#VSSN_Aber @WISERDNews @VSSN_UK @AberRBI



4:25 PM · May 24, 2023 · 715 Views



Future Gen Cymru
@futuregenymru



 Rydym yn Llanelwy am y Gymuned Er Cymuned gyntaf erioed

[@wgucivicmission](#)

Ar yr agenda heddiw:



Cydweithio i fynd i'r afael â heriau



Dysgu gyda'n gilydd



Helpu i lunio gwaith [#futureFfocws](#) am flaenoriaethau'r comisiynydd am y saith mlynedd nesaf.

[Translate Tweet](#)



10:18 AM · May 10, 2023 · 444 Views



ComisiynyddyGymraeg
@ComyGymraeg

...

Braf bod yn rhan o ddigwyddiad @WalesAudit heddiw yn arwain gweithdy a chael cyfrannu i'r drafodaeth gyda @einirsion @Arts_Wales, Derek Walker @futuregencymru a Siân Lewis @Urdd ar 'Sut mae cyflawni 'Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu?'

[Translate Tweet](#)



2:25 PM · May 16, 2023 · **2,632** Views



Future Gen Cymru
@futuregencymru

...

“Un o'r pethau sydd angen i ni wneud mwy ohono yw rhoi cyfle i sefydliadau a phobl gymryd camau beiddgar a radical i gyrraedd lle mae angen i ni fynd.” - [@derekwalker_](#)

Rydym ni yma yn [@auditwales_gpx](#) ar gyfer Ffocws Ein Dyfodol yn siarad am wireddu Cymru o ddiwylliant bywiog.

[Translate Tweet](#)



Urdd Gobaith Cymru and 2 others

1:26 PM · May 16, 2023 · **686** Views

Rydym hefyd yn cynllunio:

- Cyfarfodydd bord gron ar ddiwylliant, cydraddoldeb hiliol, ac undebau llafur, a gweithdy ar Gymru Fwy Cyfartal (Mehefin)
- Mwy o ddigwyddiadau rhanbarthol ar y cyd â'n Ysgogwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol 100 (Mehefin)
- Sesiynau polisi archwiliadol gyda rhanddeiliaid i drafod gwahanol faterion byw

I gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwch chi gyfrannu eich syniadau am ein gwaith a dyfodol y Swyddfa, ewch i'n [gwefan](#).

Rydym yn recriwtio

A ydych chi'n angerddol am ddod o hyd i atebion newydd i ddatblygu cynaliadwy a gweithio gydag eraill i wella llesiant ledled Cymru a'r byd?

Rydym am benodi pum unigolyn i ymuno â'n Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) i roi sicrwydd a chynghor ar lywodraethu fy Swyddfa.

Diben y pwyllgor yw rhoi cynghor i mi a'm tîm ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau strategol ar gyfer rheoli risg a llywodraethu. Gallwch ddod o hyd i restr lawn o gyfrifoldebau ARAC ar ein [gwefan](#).

Rydym yn chwilio am bobl sydd â gwybodaeth neu ddiddordeb yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhywun sydd am weithredu fel llysgennad i'r sefydliad a gallu rhannu eich barn, hyd yn oed os nad yw'n cael ei rhannu gan eraill.

Mae arnom angen pobl sy'n gallu gweld y darlun mawr, gweithredu gydag uniondeb a model rôl ymddygiad cynhwysol. Am restr lawn o'r sgiliau penodol rydym yn chwilio amdanynt, ewch i'n [gwefan](#).

Ar draws y rolau gwag, rydym yn chwilio am **gyfuniad o arbenigedd** o faes cyllid, cyfreithiol, llywodraethu a'r byd gwleidyddol – felly efallai eich bod wedi dal rolau yn y llywodraeth, sefydliadau rhynglywodraethol, y sector preifat neu sefydliadau cymdeithas sifil.



“Mae chwarae rhan fechan yn nhaith anhygoel FGC hyd yn hyn yn fraith lwyr ac mae gwybod bod y swyddfa’n cael ei rhedeg yn dda, ei bod yn ariannol gadarn a bod ganddi brosesau llywodraethu da yn galluogi’r Comisiynydd i gyflawni ei waith gweledigaethol heb unrhyw ymyrraeth.”

Aelod ARAC

Rydym yn annog yn gryf geisiadau gan bobl yn y grwpiau canlynol i wneud cais:

- Cefndiroedd hiliol amrywiol
- Byw gydag anabledd / anableddau

Os oes gennych ddiddordeb mawr mewn cofleidio atebion newydd i ddatblygu cynaliadwy, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!

Ochr yn ochr â’r recriwtio hwn, rydym yn cynnig sawl swydd dan hyfforddiant dwy flynedd, gan weithio gyda Pathway to Board a chyn-fyfyrwyr ein Hacademi Arweinyddiaeth Cenedlaethau’r Dyfodol ein hunain.

Am ragor o wybodaeth [ewch i’n gwefan](#).

Holi ac Ateb y Tîm – Pep

Bob mis, byddwn yn cyhoeddi sesiwn holi-ac-ateb gydag aelod o’n tîm a fydd yn rhannu ei fewnwelediad i’w amser gyda’r swyddfa.

Y mis hwn, Petranka (Pep) Malcheva, aelod tîm hirsefydlog sydd wedi gweithio ar nifer o brosiectau ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys cynllunio a chreu lleoedd, system drafnidiaeth Cymru, a meddwl am y dyfodol.



Pryd ddechreuoch chi gyda'r swyddfa?

Mai 2018

Beth yw eich blaenoriaethau presennol?

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar [Ffocws Ein Dyfodol](#). Ar y cyd â chydweithwyr, rydym yn datblygu fframwaith dadansoddol, meini prawf a chynllun ar gyfer sut y byddwn yn dadansoddi popeth y mae pobl yn ei ddweud wrthym trwy ein ffynonellau cynnwys lluosog.

Rwyf hefyd yn gweithio, ochr yn ochr â Sara Elias o lechyd Cyhoeddus Cymru, ar ein hyfforddiant a'n cyngor i gyrff cyhoeddus mewn perthynas â meddwl a rhagwelediad hirdymor. Mae rhagwelediad a meddwl am y dyfodol, h.y, yr hyn a allai ddigwydd o ganlyniad i benderfyniadau, gweithredoedd a materion sy'n digwydd yn y presennol, wedi bod yn rhywbeth sydd wedi bod yn angerdd personol i mi ers blynnyddoedd, felly rwy'n gyffrous iawn i fod yn gweithio yn y maes hwn.

Beth fu eich moment balchaf?

Rwyf wedi cael rhai ond yr un sy'n sefyll allan yw pan ddywedodd rhywun mai ein hadroddiad [Adran 20](#) a'n [Matrics Aeddfedrwydd](#) yw'r adroddiad/offeryn gorau y maent wedi'i weld!



Beth oedd eich darn mwyaf o ddysgu yn eich amser gyda'r swyddfa?

Mae ein gwaith yn ddeinamig iawn ac yn cwmpasu ystod mor eang o bethau yr wyf yn teimlo fy mod yn dysgu rhywbeth yn gyson, felly mae'n anodd dewis un peth allan o'r mynydd enfawr o wersi yr wyf wedi'u cael dros y blynyddoedd.

Efallai mai'r peth sydd wedi cymryd hiraf i mi ei ddysgu yw bod newid diwylliannol yn cymryd amser hir a rhaid eich bod yn ymdrechu'n gyson tuag ato er mwyn iddo weithio.

Beth yw eich gobaith pennaf wrth i waith y swyddfa barhau i'r dyfodol?

Y gallwn greu momentwm y gall pawb yng Nghymru ei gefnogi, a bod yr enghreifftiau da yr ydym yn eu gweld yng Nghymru ar lefel leol yn gallu cael eu tyfu, eu hailadrodd a'u rhannu â'r byd, oherwydd mae meddwl am blant y dyfodol yn y presennol yn rhywbeth y dylai pawb fod yn ei wneud.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i aelodau newydd o'r tîm?

Mae'n gwbl normal ac yn eithaf safonol i deimlo'n llethu gyda maint y pethau yr ydym yn ceisio'u cyflawni - a dweud y gwir, nid yw'r teimlad hwnnw byth yn diflannu'n llwyr - ond byddwch yn gyflym yn mynd o fod wedi'ch gorlethu i'ch cyffroi.

Un gair sy'n crynhoi eich amser yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru:

Стихия (sydd, o'i gyfieithu o'r Bwlgareg, yn golygu grym afreolus natur).



Grŵp Herio Sero Net Cymru 2035

Rydyn ni ar “ein rhybudd olaf”.

Dyna mae gwyddonwyr blaenllaw wedi’i ddweud yn ddiweddar ynglŷn ag effeithiau trychinebus bydeang newid hinsawdd.

Wedi’i sefydlu’n gynharach eleni, mae Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035 yn gweithio i gyflawni ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i **“gomisiynu cyngor annibynnol i archwilio llwybrau posibl i sero net erbyn 2035.... ac edrych ar yr effaith ar gymdeithas a sectorau o’n heconomi a sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau andwyol”**.

Dan arweiniad Jane Davidson (cyn Weinidog yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru) mae’r grŵp yn dod ag arbenigwyr o bob rhan o’r byd academaidd, sefydliadau cyhoeddus, preifat, a chynrychiolwyr o Senedd Ieuenctid Cymru ynghyd a’i dasg yw:

- dod o hyd i'r enghreifftiau gorau o newid trawsnewidiol o Gymru ac o gwmpas y byd a dod â nhw i Gymru;
- herio llywodraeth Cymru a'r Senedd i fynd ymhellach ac yn gyflymach;
- dychmygu sut olwg sydd ar ddyfodol tecach, mwy cynaliadwy i'r genedl Gymreig.

“Rwy’n herio unrhyw un sydd â syniadau mawr am sut i gyrraedd sero net erbyn 2035 – tra hefyd yn gwneud yn siŵr ein bod yn cefnogi cymunedau yng Nghymru ac yn sicrhau gwell canlyniadau i fyd natur – i ymateb i’n galwadau am dystiolaeth.”

Jane Davidson

Cyn-Weinidog yr Amgylchedd, a gynigiodd yr hyn a ddaeth yn Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Grŵp Herio Cymru
Sero Net 2035
Wales **Net Zero 2035**
Challenge Group

Maent bellach wedi lansio’r cyntaf o bum Maes Her y byddant yn ymchwilio iddynt – **Sut gall Cymru fwydo ei hun erbyn 2035?** - a bydd yn chwilio am yr atebion mwyaf dychmygus i lywio cynlluniau cyflawni 10 mlynedd o 2025 i 2035.

Bydd yn ceisio safbwyntiau gan Gymru a’r byd, gan wneud casgliadau drafft yn gyhoeddus i’w rhoi ar brawf yn agored yng Nghymru a thu hwnt, cyn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn haf 2024.

Mae’r meysydd Her eraill y byddant yn gweithio arnynt yn cynnwys:

- *Sut gallai Cymru **ddiwallu anghenion ynni** erbyn 2035 tra'n rhoi'r gorau i danwydd ffosil yn raddol?*
- *Sut y gallai Cymru **gynhesu ac adeiladu cartrefi a gweithleoedd** erbyn 2035?*
- *Sut y gellid **cysylltu pobl a lleoedd ledled** Cymru erbyn 2035?*
- *Sut gallai **addysg, swyddi a gwaith edrych** ledled Cymru erbyn 2035?*

Rydym yn gyffrous i fod yn ymuno â’r grŵp fel sylwedydd ac yn edrych ymlaen at weld yr enghreifftiau arloesol ac ysbrydoledig o newid trawsnewidiol a allai helpu i gyflymu ein huchelgeisiau sero net a sicrhau dyfodol gwell i’r rhai nad ydynt wedi’u geni eto.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035 ar [eu gwefan](#).



2 - [Grŵp Herio Sero Net Cymru 2035](#)

Cysylltwch â ni

Am ddal i fyny ar rifynnau blaenorol y cylchlythyr? Dewch o hyd iddynt ar ein gwefan [yma](#).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy:

[cenedlaethaurdyfodol.cymru](#) / [cenedlaethaurdyfodol2020.cymru](#)

[cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru](#)

@futureregencymru



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales